# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

## PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 11EG MEHEFIN, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd 4/06/15)

## PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

### AELODAETH (18)

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Aled Ll. Evans | Sian Gwenllian |
| Annwen Hughes | Dyfrig Jones | Michael Sol Owen |
| Gethin Glyn Williams | John Wyn Williams | R. H. Wyn Williams |

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Trevor Edwards |
| W. Roy Owen | Eirwyn Williams |

### Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason Humphreys | [2 sedd wag] |

### Llafur (1)

Y Cynghorwyr Gwynfor Edwards

### Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorwyr June Marshall

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau – eitem 8 |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned – eitem 7 |

# R H A G L E N

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd am 2015/16.

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd am 2015/16.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION** 1 - 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2015 fel rhai cywir.

**7. STRATEGAETH GAFFAEL 2014/15** 5 - 16
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies**

(A) Cyflwyno drafft terfynol o'r Strategaeth gan yr Aelod Cabinet Economi (ynghlwm).

(B) Ystyried y cwestiynau a godwyd yn y Cyfarfod Paratoi (ynghlwm).

*10.40am – 11.25am*

**8. STRATEGAETH FFORDD GWYNEDD** 17 - 26
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Cyflwyno'r Strategaeth drafft gan yr Aelod Cabinet Adnoddau (ynghlwm).

*11.25am – 12.25pm*

**9. YMCHWILIADAU** 27 - 31

(A) Ymchwiliad Tai Gwyliau a Threthi – cyflwyno drafft o’r briff (ynghlwm).

(B) Ymchwiliad Craffu Ymgysylltu – cyflwyno drafft diwygiedig o’r briff (ynghlwm).

_12.25pm – 12.40pm_

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 26.03.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Jason Humphreys (Is-gadeirydd yn cadeirio).

**Y Cynghorwyr:-** Aled Evans, Gweno Glyn, Simon Glyn, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, June Marshall, Michael Sol Owen, Eirwyn Williams, John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Debbie Anne Williams Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**
Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor
Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod**
Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Lesley Day, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Dyfrig Jones a W.Roy Owen.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Ionawr, 2015 fel rhai cywir.

## 3. DOGFEN YMGYNGHOROL AR DDIWYGIO LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynwyd –
(1) Adroddiad yr Arweinydd a'r Pennaeth Strategol a Gwella yn ceisio sylwadau'r aelodau ar gyfres o faterion yn codi yn y Ddogfen Ymgynghorol ar Ddiwygio Llywodraeth Leol, sy'n amlinellu nifer o faterion y mae'r Llywodraeth yn eu hystyried o ran trefn a phatrwm awdurdodau lleol yng Nghymru.
(2) Sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y materion o fewn ei faes llafur.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Derbyn y sylwadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gan ychwanegu cefnogaeth i'r gwrthwynebiad i gyfyngu ar dymor aelodaeth cynghorwyr.**
**(b) Cynnig y sylwadau ychwanegol a ganlyn er ystyriaeth gan Gabinet y Cyngor:-**
**<u>Cyffredinol</u> – Bod y pwyllgor yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau ar y ddogfen, er yn bryderus am y cymysgedd yn y cynigion sydd gerbron a hefyd yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd symud ymlaen yn fuan i osod cyfeiriad ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol.**

**Paragraff 2.5 – Dymunir ail-bwysleisio'r sylwadau a anfonwyd mewn ymateb i'r Ymgynghoriad ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol a gyflwynwyd yn Hydref, 2014.**
**Paragraff 2.7 – Derbynnir yr hyn a nodir fel bwriad gan y Llywodraeth.**
**Paragraff 2.8 – Cytunir gyda'r pwysau o blaid sefydlu 'grym cymhwysedd cyffredinol', a fyddai'n ein galluogi i wneud mwy o bethau er budd gorau ein cymunedau.**
**Paragraff 2.10 – Derbynnir yr hyn a nodir fel bwriad gan y Llywodraeth.**
**Paragraff 3.11 a 3.12 – Ni welir llawer o fudd yn gosod y set o ddyletswyddau penodol ar gyfer Prif Weithredwyr ac ni ddylid cyfyngu ar ba mor hir y gall Prif Weithredwr fod mewn swydd.**
**Paragraff 3.13 – Tra'n gwerthfawrogi'r egwyddor y tu ôl i'r syniad o gyfarch y gwahaniaeth arwyddocaol mewn cyflogau prif ac uwch swyddogion, teimlir bod modd gorsymleiddio yn y maes hwn gan fod cyfrifoldebau yn amrywio. Teimlir bod lle posib' ar gyfer rhyw fath o fframwaith, ond bod rhyddid i gynghorau unigol ymateb i amgylchiadau lleol.**
**Paragraff 3.14 - Gwrthwynebir yn llwyr yr awgrym o sefydlu comisiwn annibynnol i benodi Prif Weithredwyr ac uwch rolau cyhoeddus eraill. Byddai sefydlu corff o'r fath yn ddrud ar adeg pan mae'r gwasanaethau cyhoeddus i gyd o dan bwysau ariannol dirfawr a hefyd yn tynnu oddi wrth y berthynas allweddol rhwng prif ac uwch swyddogion a'r corff o aelodau etholedig lleol. Hefyd, beth bynnag fydd y drefn, bydd angen cymryd camau i sicrhau bod gofynion clir o ran y gallu i siarad Cymraeg ar gyfer swyddi o'r fath.**
**Paragraff 4.4 – Ni chroesawir y grym i adolygu'r Cynghorau Cymuned yn yr ardal, yn arbennig pan mae'r briff o leihau a'r amserlen ar gyfer ei gyflawni fel petai wedi ei osod yn barod.**
**Paragraff 4.5 - Mae amheuaeth am y bwriad o sefydlu set o safonau y bydd disgwyl i gynghorau tref a chymuned eu pasio "*cyn gellir ystyried eu bod yn alluog ac yn gymwys*" gan y byddai hynny'n creu disgwyliadau allai arwain pobl i beidio â chynnig eu hunain i weithredu ar gynghorau cymuned ac, yn ei dro, arwain at ddwy haen o gynghorau tref a chymuned.**
**Paragraff 5.1 a 5.2 – Croesawir y pwyslais ar rymuso cymunedau lleol a grwpiau cymunedol i gymryd cyfrifoldeb am wasanaethau neu asedau, fel y mae'r Cyngor hwn wedi bod yn sôn yn y sesiynau Her Gwynedd diweddar.**
**Paragraff 6.1 - Derbynnir yr hyn a nodir fel bwriad gan y Llywodraeth.**
**Paragraff 6.2 – Derbynnir yr hyn a nodir fel bwriad gan y Llywodraeth.**
**Paragraff 6.3 – Derbynnir yr hyn a nodir fel bwriad gan y Llywodraeth.**
**Paragraff 6.4 – Croesawir y bwriad i dacluso grymoedd Gweinidogion Cymru i gynnal adolygiad annibynnol o bryderon am drefniadau cyngor ac i ymyrryd yn benodol yng ngweithrediad unrhyw gyngor, yn dilyn adolygiad o'r fath.**
**Paragraff 7.2 – Derbynnir yr hyn a nodir fel bwriad gan y Llywodraeth.**
**Paragraff 7.3 - Croesawir unrhyw symudiad i wneud cynghorau yn fwy atebol yn ddigidol trwy we-ddarlledu a hwyluso cynnig sylwadau trwy gyfryngau cymdeithasol ymysg eraill, ond pryderir bod goblygiadau ariannol ymhlyg â'r cynnig hynny ar adegau pan mae cynghorau o dan bwysau ariannol enfawr.**
**Paragraff 7.4 – Derbynnir yr hyn a nodir fel bwriad gan y Llywodraeth.**
**Paragraff 8.1 ac 8.2 – Croesawir y ffaith bod y Llywodraeth am weld cryfhau eto ar y swyddogaeth craffu o fewn cynghorau, fydd ag adnoddau digonol i'w gefnogi a hefyd i'r cyhoedd fedru cymryd rhan mewn prosesau craffu, ond eto mae pryder ynglŷn â goblygiadau cost hynny.**
**Paragraff 8.3 – Croesawir bwriad y Llywodraeth o weld cynghorau yn cydweithio i graffu gwasanaethau a ddarperir yn rhanbarthol ond gan bwysleisio y dylai hynny gynnwys craffu ar gyrff anetholedig sy'n darparu gwasanaethau.**

**<u>Paragraff 8.4</u> – Croesawir dymuniad y Llywodraeth o weld gwell cydweithio rhwng y cyrff archwilio allanol ac awgrymir, yn wir, y dylid anelu at gael un corff archwilio mewn gwirionedd.**
**<u>Paragraff 9</u> - Gan fod yr angen i ddiwygio a symleiddio trefn gyllido llywodraeth leol yn cael ei grybwyll yn y ddogfen, mae'n siomedig iawn nad oes unrhyw gynigion ar y bwrdd amdano eto. Mae gwir angen edrych ar y modd y dyrennir arian a methiant y trefniadau presennol i gydnabod anghenion ardaloedd gwledig.**

**4. RHEOLI GALW**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

(A) Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar gais y pwyllgor yn amlinellu'r cefndir perthnasol, yn rhoi diweddariad ac yn ymateb yn benodol i gwestiynau a godwyd yn y Cyfarfod Paratoi ar 12 Chwefror, 2015.

(B) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau pellach a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr i gwestiynau / sylwadau mewn perthynas â:-

- Phryder bod y Cyngor yn gwneud i ffwrdd â rhai gwasanaethau gan sefydlu gwasanaethau newydd yn eu lle na fydd yn dwyn ffrwyth am rai blynyddoedd. Nododd yr Arweinydd y byddai ef a'r Aelodau Cabinet perthnasol yn falch o glywed am unrhyw enghreifftiau o hyn.
- Cyfrifo'r arbedion ariannol a phwysigrwydd adnabod cynlluniau aflwyddiannus, eu dirwyn i ben a symud ymlaen at gynlluniau amgen. Nodwyd y cyflwynwyd canfyddiadau gweithredu'r newid i'r drefn o gasglu gwastraff gweddilliol yn ardal Dwyfor i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a bod hyn yn enghraifft glir o reoli galw oedd wedi gweithio am sawl rheswm, gan gynnwys y ffaith yr ymgysylltwyd ymlaen llaw gyda'r boblogaeth leol ynglŷn â'r newid trefniadau. Nodwyd y gellid anfon adroddiad y Pwyllgor Craffu at unrhyw aelod a ddymunai gopi.
- Y sialens o gyplysu arbed arian gyda rheoli galw yn y maes bobl hŷn oherwydd y cynnydd yn y galw.
- Yr angen i bawb fod yn ymwybodol o'r angen i reoli galw.
- Yr angen i newid diwylliant ymysg y staff, yn ogystal â'r bobl tu allan.
- Pryder y gallai prif ffrydio rhai meysydd olygu bod meysydd eraill yn mynd ar goll yn y broses o newid diwylliant.
- Y tueddiad i ymateb i'r argyfwng presennol bob amser yn hytrach nag edrych yn fwy pell gyrhaeddol ac, wrth i adnoddau brinhau, bod angen buddsoddi yn y gwasanaethau mewn ffordd sy'n mynd i arbed yn y tymor hir a rhoi gwell ansawdd bywyd i'r dinesydd.

**5. TREFNIADAU CRAFFU ARFAETHEDIG Y BWRDD GWASANAETHAU LLEOL AR Y CYD – ADRODDIAD PELLACH AR YR OPSIYNAU**

Cyflwynwyd – adroddiad pellach y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ar yr opsiynau ar gyfer sefydlu trefniadau craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl), yn sgil trafodaeth yn y Fforwm Craffu ar feysydd penodol o bryder a godwyd gan aelodau'r pwyllgor hwn yn eu cyfarfod diwethaf ynghylch atebolrwydd gwleidyddol clir, cyrff annemocrataidd yn rhan o'r gwaith craffu, aelodaeth y panel a threfn adrodd glir i'r Cyngor.

Nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod aelodau'r panel craffu newydd yn derbyn hyfforddiant penodol ar rôl y BGLl a chytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i adrodd hynny i'r Uwch Reolwr Partneriaethau sy'n arwain ar waith y Bwrdd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cefnogi Opsiwn B, gan sicrhau yr ymgorfforir y drefn adrodd a nodir ym mharagraff 2.2 o'r adroddiad.**

**(b) Adrodd i'r grŵp sy'n llunio'r trefniadau manylach ar yr argymhelliad ynghylch aelodaeth a nodir ym mharagraff 2.3(i) o'r adroddiad.**

**(c) Treialu'r trefniadau am gyfnod o flwyddyn cyn asesu ymhellach.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.35pm.

Strategaeth Gaffael 2014/15 – drafft terfynol

Tabl cynnwys

1. **Cyflwyniad**

1.1 Caffael yng Ngwynedd

1.2 Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

2. **Buddion Lleol o Wariant ar Gaffael**

2.1 Rheolaeth categori

2.2 Ymgysylltu gyda Chyflenwyr lleol

2.3 Caffael cynaliadwy a buddion lleol

2.4 Datblygu sgiliau, gallu a chapasiti i gaffael

2.5 Llywodraethu a chyfrifoldebau

3. **Arbedion Caffael ac Arbedion Effeithlonrwydd**

3.1 Cyfyngiadau ariannol

3.2 Gwerth am arian

3.3 Caffael electronig ac arbedion effeithlonrwydd

4. **Dyheadau caffael ehangach**

4.1 Caffael ar y Cyd

4.2 Y Polisi Iaith Gymraeg

4.3 Mentrau Cymdeithasol a'r Trydydd Sector

4.4 Cydymffurfiaeth a gweithdrefnau

5. **Y Prif Ymrwymiadau Caffael**

5.1 Beth ydym eisiau ei gyflawni?

Rhagair gan yr Aelod Cabinet Caffael a'r Economi

Croeso i Strategaeth Gaffael y Cyngor. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer caffael ac yn dangos sut mae caffael wedi cyfrannu a sut all gyfrannu ymhellach at nodau'r Cyngor dros dymor cyfredol y Cabinet.  Mae'r strategaeth hon yn dwyn ynghyd flaenoriaethau lleol ac argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu a chaffael yn y sector cyhoeddus.

Yn ystod 2013/14 fe wnaeth y Cyngor wario dros £185 miliwn ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau a ddarparwyd gan sefydliadau allanol, ac mae dyletswydd arnom i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau bosib i gwrdd ag anghenion ein dinasyddion ac i gyrraedd ein hamcanion strategol ehangach.

Ein prif flaenoriaethau caffael ac economaidd yw:

- Cadw'r budd yn lleol, sy'n cynnwys cryfhau gwytnwch busnesau o fewn y sir a chadw budd economaidd lleol
- Gwella ein gallu i gaffael a'n canlyniadau
- Defnyddio caffael i gwrdd â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a darparu gwasanaethau'n effeithiol i bobl Gwynedd

Fel yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am gaffael, rwy'n cydnabod fod caffael effeithiol yn allweddol er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion. Gall ymagwedd strategol tuag at gaffael ddod â buddion sylweddol i'r Cyngor, i bobl leol ac i'r gymuned leol.

Datblygwyd y weledigaeth hon, y cyfeiriad a'r blaenoriaethau allweddol sydd wedi'u hamlinellu yn dilyn ymgynghori gyda budd-ddeiliaid. Nid fydd strategaeth ar ei phen ei hun yn arwain at gaffael yn effeithiol. Yr elfennau pwysicaf er mwyn i gaffael lwyddo yw ymrwymiad gan uwch reolwyr a bod y strategaeth yn cael ei defnyddio trwy'r Cyngor cyfan.

Mandy Williams-Davies

Aelod Cabinet

1. **Cyflwyniad**

1.1 Caffael yng Ngwynedd

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor drefniant caffael sydd wedi'i ddatganoli, lle mae'r Gwasanaethau'n gyfrifol am gomisiynu a chaffael nwyddau a gwasanaethau.

Mae gennym Uned Caffael Corfforaethol a'i rôl yw monitro a gwella canlyniadau caffael y Cyngor. Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn mesur ac yn adrodd ar berfformiad y Gwasanaethau, ac yn ceisio gwella caffael trwy wella prosesau mewnol a dealltwriaeth ynglŷn â chaffael ar draws y Cyngor.

Trwy gaffael a chomisiynu'n effeithiol mae'r Cyngor yn sicrhau nwyddau a gwasanaethau mewn modd cynaliadwy sy'n sicrhau gwerth am arian i bobl Gwynedd.

1.2 Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

Mae caffael wedi cyfrannu'n sylweddol i'r gymuned leol. Mae'r rhestr isod yn nodi rhai o'n llwyddiannau yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Gaffael 2008-2011:

- Gweithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy a chraffu'r Polisi ymhellach yn llwyddiannus.
- Gwireddu Buddion Cymunedol mewn nifer o brosiectau caffael ar raddfa fawr.
- Rydym wedi cydweithio gydag awdurdodau cyfagos ar amryw o brosiectau trawsffurfio a gwella caffael.
- Fe wnaethom greu a sefydlu contractau cydweithio a chytundebau fframwaith trwy weithio gyda phartneriaid ar draws Gogledd Cymru.
- Gweithredu amryw o declynnau e-Gaffael megis Systemau Prynu i Dalu (*Purchase to Pay*) cwbl integredig ac e-dendro cyfres o declynnau.
- Rydym wedi gwireddu arbedion caffael ac wedi sicrhau gwerth am arian trwy ein gweithgareddau caffael a'n prosesau caffael electronig.
- Rydym yn adrodd yn rheolaidd ar ein perfformiad caffael ac yn gwerthuso gwariant lleol.
- Rydym wedi datblygu gallu a sgiliau caffael ein Huned Caffael Corfforaethol ac aelodau staff trwy'r holl Wasanaethau sy'n ymgymryd â gweithgareddau caffael.
- Rydym wedi ymgysylltu â'r Trydydd Sector trwy Fforwm Mentrau Cymdeithasol ac wedi datblygu Teclyn Mentrau Cymdeithasol.
- Rydym wedi creu Fframwaith Caffael Mentrau Cymdeithasol er mwyn gweithio gyda'r Trydydd Sector a chawn ein hadnabod fel Sir Mentrau Cymdeithasol gan Social Enterprise UK.

Mae enghreifftiau o'r buddion hyn yn cynnwys:

- Prentisiaethau a phrofiad gwaith fel rhan o raglenni cyfalaf mawr megis Ysgol yr Hendre, Cynllun Adfywio Blaenau Ffestiniog a phrosiectau adeiladu eraill.
- Enwebiad am Wobr Genedlaethol am weithredu e-Gaffael yn ysgolion Gwynedd.

- Arbedion ariannol o £200,000 trwy ocsiwn electronig llwyddiannus ar gyfer contractau cludiant cyhoeddus.

## 2. Buddion Lleol o Wariant ar Gaffael

### 2.1 Rheolaeth categori

Mae'r Cyngor yn dymuno sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf posib o gaffael a chomisiynu nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'i weithgareddau caffael a thrwy weithdai, ymgynghori â gwasanaethau ac adolygiadau allanol, mae wedi adnabod rhai meysydd allweddol i'w gwella. Dymuna'r Cyngor fynd i'r afael â'r diffygion hyn trwy fabwysiadu egwyddorion Rheolaeth Categori.

Mae Rheolaeth Categori yn ymagwedd strategol at gaffael a chomisiynu sy'n trefnu adnoddau caffael i ganolbwyntio ar gategorïau gwariant penodol. Mae hyn yn wahanol i'r trefniant presennol lle mae'r gwasanaethau eu hunain yn prynu nwyddau a gwasanaethau. Mae edrych ar gaffael yn strategol yn rhoi mwy o bwyslais ar gynnal dadansoddiad trylwyr o'r farchnad a mwy o gydweithio rhwng comisiynwyr a chaffaelwyr. Gyda rolau a chyfrifoldebau penodol i ymgymryd â thasgau penodol, gall y timau comisiynu a chaffael ennyn gwell canlyniadau wrth brynu trwy egwyddorion rheolaeth categori o gymharu â dulliau caffael traddodiadol sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth.

Credwn y gall y dull caffael hwn gyflawni gwell arbedion effeithlonrwydd yn y maes caffael, a chynyddu'r budd lleol ar yr un pryd.

### 2.2 Ymgysylltu gyda Chyflenwyr lleol

Fel y soniwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi adnabod datblygu'r economi lleol fel un o'i allbynnau strategol allweddol dros dymor y Cabinet cyfredol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall ei wariant gyda darparwyr allanol gael effaith sylweddol ar yr economi lleol ac mae'n dymuno cael y buddion mwyaf posib i'r economi lleol o'r gwariant hwn.

Mae'r Cyngor wedi adnabod mesurau perfformiad allweddol er mwyn cynyddu'r budd lleol, ac maent yn cynnwys:

- Cynyddu'r gwariant gyda darparwyr allanol o swm 2013/14 o 40%
- Diogelu a chreu cyfleoedd gwaith o ganlyniad i wariant y Cyngor gyda darparwyr allanol
- Cynyddu'r defnydd o gymalau cymdeithasol mewn prosiectau caffael mawr i fod o fudd i'r gymuned leol

Creda'r Cyngor y gall ymagwedd gyson at gaffael trwy Reolaeth Categori wella gallu cyflenwyr lleol i gystadlu am ei gontractau. Yn yr un modd, gall arferion tryloyw a chyhoeddi blaen raglen gaffael arfaethedig y Cyngor baratoi'r farchnad leol yn well i allu cystadlu am gontractau newydd.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor gofrestr contractau a blaen raglen gaffael sy'n cael eu rheoli'n ganolog, fodd bynnag, mae angen gwella pa mor gyflawn yw'r gofrestr hon, a dim ond trwy ymgysylltu'n ehangach ar draws y Cyngor y gellir gwneud hynny.

## 2.3 Caffael cynaliadwy a buddion lleol

Fe wnaeth y Cyngor weithredu Polisi a chanllaw Caffael Cynaliadwy yn 2011. Nod hyn oedd sicrhau bod Gwasanaethau yn ymgymryd â gweithgareddau caffael mewn modd cyfrifol a chynaliadwy. Mae'r Polisi yn anelu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posib o wariant y Cyngor o ran gwella'r budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn y Sir.

Mae amcanion y Polisi Caffael Cynaliadwy fel a ganlyn:

- Lleihau ein heffaith amgylcheddol i'r eithaf trwy ddethol a defnyddio nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn well.
- Sicrhau y caiff gweithgareddau caffael eu cyflawni mewn modd sy'n annog yr holl gyflenwyr, gan gynnwys mentrau bach a chanolig, i fidio am gontractau'r Cyngor;
- Creu amgylchedd sy'n darparu cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r buddion sy'n deillio o gynnwys a defnyddio meini prawf cymdeithasol mewn gweithgareddau caffael.
- Sicrhau bod asesiadau gwerth am arian yn seiliedig ar y gost oes gyfan, ac nid y pris prynu cychwynnol yn unig, pan fo hynny'n bosib.

Mae'r canllaw, sy'n cynnwys Rhestr Wirio Caffael Cynaliadwy a Theclyn Caffael Cynaliadwy, yn helpu defnyddwyr i ystyried y ffactorau y soniwyd amdanynt wrth ddylunio eu dull caffael.

Mae'r Cyngor yn credu fod ymagwedd gynaliadwy at gaffael yn hollbwysig er mwyn sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf posib yn lleol o wariant gyda darparwyr allanol, a bydd yr ymagwedd hon yn cael effaith gadarnhaol am amser maith ar ein cymunedau.

## 2.4 Datblygu sgiliau, gallu a chapasiti i gaffael

Ar hyn o bryd mae nifer o staff y Cyngor yn ymgymryd ag amryw o agweddau comisiynu a chaffael, boed hynny'n cynnwys adnabod anghenion busnes, cyhoeddi dogfennau tendr neu reoli contractau.

Mae amlder a gallu'r staff i wneud y tasgau hyn yn amrywio trwy'r Cyngor, ac o dan egwyddorion Rheolaeth Categori, bydd y Cyngor yn ceisio cydlynu'r gweithgaredd hwn yn well. Trwy roi rolau a chyfrifoldebau clir i unigolion o ran caffael a chomisiynu, disgwyliwn weld gwelliant yn ein canlyniadau caffael a chanlyniadau'r gwasanaeth.

Ar hyn o bryd, fel rhan o Fatrics Hyfforddiant Corfforaethol y Cyngor, mae yna gwrs hyfforddiant caffael safonol a chwrs caffael arall uwch. Bydd y Cyngor yn gobeithio gweithredu Fframwaith Cymhwysedd Caffael i sicrhau bod unigolion sydd ynghlwm â phrosesau comisiynu a chaffael yn fedrus ac yn cael digon o gefnogaeth i ymgymryd â gweithgareddau caffael strategol a gweithredol.

Trwy gefnogaeth a hyfforddiant Rheolaeth Categori arbenigol gallwn wella ein gallu i gyflawni gwell canlyniadau caffael a chanlyniadau i'r gwasanaeth, a fydd o fudd i drigolion Gwynedd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y newid trawsffurfiol hwn yn anferth a bydd yn defnyddio dull graddol wrth weithredu unrhyw newid.

2.5 Llywodraethu a chyfrifoldebau

Er mwyn i Reolaeth Categori gael ei fabwysiadu'n effeithiol ar draws y Cyngor, mae'n rhaid cael trefniadau llywodraethu a chyfrifoldeb clir.

Fel rhan o weithredu'r drefn Rheolaeth Categori, bydd y Timau Categori a benodir yn gyfrifol am gyflwyno caffael ar draws categorïau gwariant sydd wedi'u cytuno. Bydd hyn yn cynnwys paratoi cynlluniau categori a chynlluniau caffael, ac mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth perthnasol a'r Rheolwr Caffael Corfforaethol gytuno arnynt. Bydd y cynlluniau caffael hyn yn rhoi sylw i anghenion y Gwasanaeth, unrhyw dargedau effeithlonrwydd a adnabuwyd a sut y bydd y dull caffael o fudd i'r gymuned leol.

Bydd y Timau Categori yn cael eu rheoli gan y Gwasanaethau, ond bydd angen iddynt adrodd yn broffesiynol i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol ar eu canlyniadau a'u perfformiad caffael.

Er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau caffael eu monitro gan Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor, bydd perfformiad caffael yn cael ei adrodd yn y Panel Cyflawni perthnasol a fydd yn cynnwys Pennaeth Gwasanaeth y categori perthnasol a'r Aelod Cabinet.

Bydd yr Arweinyddion Categori a'r Rheolwr Caffael Corfforaethol yn gyfrifol am adrodd am y canlyniadau caffael cyffredinol i'r Aelod Cabinet ar gyfer Caffael a'r Economi.

## 3. Arbedion Caffael ac Arbedion Effeithlonrwydd

3.1 Yr her ariannol

O ganlyniad i benderfyniad y Llywodraeth ac wedi hynny penderfyniad Llywodraeth Cymru i gwtogi cyllidebau Awdurdodau Lleol trwy Gymru, mae'r Cyngor yn wynebu diffyg cyllidebol o thua £50m rhwng 2014 a 2018.

Fel rydym eisoes wedi'i brofi yn lleol, gall caffael yn well arwain at arbedion ariannol a chyfrannu'n sylweddol at gwrdd â'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Er mwyn meintioli cyfraniad caffael yn llawn, mae'n rhaid i ni fabwysiadu dull sy'n gallu monitro'n fanwl gywir yr arbedion effeithlonrwydd nad ydynt ar ffurf arian parod, arbedion arian parod a'r budd cymunedol.

Wrth ddefnyddio'r dull Rheolaeth Categori i gaffael, mae'n rhaid i bob cynllun categori ymgorffori targed arbedion neu darged osgoi costau, gan gytuno ar darged penodol a'i fonitro er mwyn cyfrifo ei effaith.

Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Cynllun Arbedion Caffael Corfforaethol. Bydd gofyn i'r Cyngor fonitro arbedion caffael a sicrhau bod pob dull o gaffael yn gwneud y mwyaf o'r cyfle i wireddu arbedion a fydd o fudd i bobl Gwynedd.

Yn yr un modd mae'n rhaid i bob cynllun categori ystyried buddion cymunedol posib yn unol â'r Polisi Caffael Cynaliadwy.

3.2 Gwerth am arian

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei holl weithgareddau caffael, pan fydd yn prynu nwyddau a gwasanaethau neu waith, yn rhoi gwerth am arian. Fel rhan o Bolisi Caffael Cynaliadwy y Cyngor, bydd yn ystyried cost oes gyfan unrhyw gaffaeliad ac yn sicrhau nad yw unrhyw weithgaredd caffael yn cael effaith andwyol ar ddinasyddion Gwynedd heddiw nac yfory.

Pan fyddo'n briodol bydd y Cyngor hefyd yn adolygu'r ddarpariaeth fewnol o gyflwyno nwyddau a gwasanaethau er mwyn sicrhau mai dyma'r model gorau o ddarparu gwasanaeth.

3.3 Caffael electronig ac arbedion effeithlonrwydd

Bydd y Cyngor yn ymdrechu'n barhaus i wella ei brosesau caffael a phrynu er mwyn sicrhau eu bod mor effeithlon ac effeithiol â phosib. Byddwn felly'n cynnal Rhaglen e-Gaffael i adolygu ein holl drefniadau tendro a phrynu. Trwy fabwysiadu teclynnau electronig, bydd y Rhaglen e-Gaffael yn ceisio moderneiddio'r holl gyhoeddiadau am gyfleoedd tendro a'r modd y caiff archebion ac anfonebau am daliadau eu prosesu.

Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd yn cwrdd â gofynion electronig Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2014 sy'n gofyn i gyfleoedd tendro fod ar gael yn electronig erbyn y dyddiad a osodwyd.

Mae'r modd y mae Gwasanaethau'n rhyngweithio â gwahanol gyflenwyr a marchnadoedd yn gymhleth iawn, felly mae'n bosib y byddwn yn ceisio mabwysiadu cyfres o declynnau i fedru masnachu'n electronig. Bydd y Rhaglen e-Gaffael yn adnabod y dull electronig mwyaf effeithiol ac effeithlon ac yn monitro'r defnydd o'r dull y cytunir arno. Bydd pob Gwasanaeth yn cytuno ar ddull penodol o gaffael yn electronig gan adnabod sut y bydd yn prosesu ei gyfleoedd tendro ac yn prosesu archebion ac anfonebau.

Er mwyn i'r Cyngor allu hysbysu'r farchnad leol am gyfleoedd tendro fydd ar y gweill yn fuan a defnyddio'r dull Rheolaeth Categori wrth gaffael, bydd y Cyngor yn gweithredu proses electronig o reoli contractau. Bydd y Rhaglen Rheoli e-Gontractau yn atgoffa'r Gwasanaethau am ddyddiadau adnewyddu contractau er mwyn paratoi'r Cyngor a'r farchnad leol yn dda at ymarferion caffael sydd i ddod. Yn yr un modd, er mwyn i'r Cyngor fabwysiadu dull mwy strategol o gaffael, bydd y Cyngor yn ceisio integreiddio'r holl gyfeirnodau contract gyda phrosesau cyllidebu ariannol presennol y Cyngor.

Bydd cadw gwell golwg ar wariant caffael yn galluogi Gwasanaethau a'r Timau Categori i wneud penderfyniadau mwy deallus ynglŷn â'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i gyflwyno gwasanaethau i bobl Gwynedd. Hefyd, bydd prosesau caffael hygyrch a thryloyw yn ei gwneud yn haws i'r economi lleol fod yn ymwybodol o gyfleoedd contractio.

## 4. Dyheadau caffael ehangach

### 4.1 Caffael ar y Cyd

Bydd y Cyngor yn ceisio cydweithio gydag Awdurdodau a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru os bydd hynny o fudd i bobl Gwynedd. Gallai hynny gynnwys rhannu arfer orau a chyfnewid profiadau er mwyn adnabod a datblygu gwell ffyrdd o gaffael.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried cydweithio gydag eraill i gronni'r galw am nwyddau a gwasanaethau, oherwydd gallai hynny arwain at brisiau gwell a hefyd lleihau'r ymdrech sydd ei angen o ran caffael.

Yn dilyn sefydlu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, sefydlwyd fframweithiau cydweithio. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n frwd â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r fframwaith cydweithio sydd ar gael. Wrth benderfynu ar ddefnyddio unrhyw fframwaith, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y fframwaith yn rhoi gwerth am arian yn nhermau ansawdd a chost. Mae'n rhaid hefyd ystyried yr ymdrech sydd ei angen ar gyfer sefydlu trefniadau tebyg a p'un a fydd hynny'n cynrychioli unrhyw fudd i'r economi lleol.

### 4.2 Polisi Iaith Gymraeg

Fel rhan o'r strategaeth gaffael a'i ymdrechion ehangach, mae'r Cyngor yn ymroddedig i hyrwyddo a diogelu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i fabwysiadu cyngor Bwrdd yr Iaith '*dan Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993'* trwy ymgorffori *'Contractio contractau gwasanaethau cyhoeddus allan a'r Iaith Gymraeg'* yn ei ymarferion caffael. Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi a'r dogfennau gweithdrefnol perthnasol i gynnwys y cymorth ymarferol yn y papur hwn.

### 4.3 Mentrau Cymdeithasol a'r Trydydd Sector

Mae'r Trydydd Sector yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, grwpiau hunan gymorth, cwmnïau cydweithredol yn y gymuned, sefydliadau crefyddol, a sefydliadau eraill nid er elw.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y Trydydd Sector yn sector allweddol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau hanfodol. Bydd y Cyngor yn adeiladu ar ei berthynas waith ac yn ymgysylltu â'r Trydydd Sector i sicrhau y caiff gwasanaethau eu cyflwyno'n gynaliadwy ac i sicrhau gwerth am arian i bobl Gwynedd.

Yn wyneb yr heriau ariannol presennol, mae'r Cyngor yn adolygu nifer o opsiynau cyflwyno gwasanaeth ac mae'n gweithio i adnabod cyfleoedd pellach i weithio gyda'r Sector. Bydd y Cyngor yn ystyried modelau cyflwyno gwasanaeth amgen lle bo hynny'n briodol, y gallai y Trydydd Sector eu darparu.

Creda'r Cyngor y bydd ymgorffori'r fframwaith a'r gyfres o declynnau ymhellach yn cynorthwyo'r ddau barti i ddatblygu eu perthynas waith.

4.4 Cydymffurfiaeth a gweithdrefnau

Bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth â’r holl reolau a rheoliadau caffael statudol, ac mae’r rhain yn cynnwys:

- Cyfarwyddeb 2014/24/EU Senedd Ewrop
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

Yn ogystal, mae’n rhaid i unigolion sy’n cyflawni gweithgareddau caffael sicrhau eu bod yn gweithio’n unol â'r canllawiau yn Rheolau Gweithdrefn Contractau’r Cyngor ac unrhyw Bolisi Caffael Cymru.

## 5. Y Prif Ymrwymiadau Caffael

5.1 Beth ydym eisiau ei gyflawni?

Mae’r strategaeth gaffael hon yn amlinellu’r allbynnau allweddol yr ydym yn dymuno eu cyflawni yn y maes caffael. Byddwn yn gosod y dyddiadau targed a ganlyn er mwyn ymgorffori amcanion y strategaeth gaffael hon:

| Allbynnau Allweddol i’w Cwblhau | Dyddiad Targed |
|---|---|
| Cychwyn Rheolaeth Categori yn y Categori Peilot | Mehefin 2015 |
| Gweithredu Rheolaeth Categori ar draws yr holl gategorïau gwariant | Medi 2016 |
| Rhaglen Cyfleoedd Caffael ar gyfer y Categori Peilot<br>• Blaen Raglen Caffael<br>• Rhestr Contractau Presennol | <br>Awst 2015<br>Awst 2015 |
| Rhaglen Cyfleoedd Caffael ar gyfer yr holl gategorïau gwariant<br>• Blaen Raglen Caffael<br>• Rhestr Contractau Presennol | <br>Rhagfyr 2016<br>Rhagfyr 2016 |
| Arbedion caffael ac arbedion effeithlonrwydd<br>• Cwblhau’r Cynllun Arbedion Caffael Corfforaethol<br>• Mesur arbedion caffael yn effeithiol – arbedion y gellir eu trosglwyddo’n arian, ac arbedion na ellir eu trosglwyddo’n arian | <br>2015 – 2017 (parhaus)<br>Awst 2015 |
| Creu fframwaith cymhwysedd a chynllun hyfforddiant ar gyfer y Gwasanaethau a’r Timau Categori | Rhagfyr 2015 |
| e-Gaffael, cwblhau a datblygu:<br>• Y Rhaglen e-Gaffael<br>• Rheoli e-Gontractau<br>• Cyfeirnodi Contractau | <br>2015 – 2017 (parhaus)<br>Awst 2015<br>Rhagfyr 2015 |
| Adolygu gweithdrefnau yn fewnol<br>• Mabwysiadu’r Rheoliadau<br>• Gweithredu’r dull rheolaeth categori yn archebion sefydlog y Cyngor<br>• Y Polisi Iaith Gymraeg | <br>Ebrill 2015<br>Awst 2016<br>Rhagfyr 2015 |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Beth yw'r mater sydd yn cael ei ystyried fel eitem craffu? | Yn y Gweithdy Blynyddol ar gyfer llunio blaenraglen y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar gyfer 2015/16, adnabu'r aelodau yr angen i graffu'r Strategaeth Caffael ddrafft cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cabinet.<br><br>Yn 2013/14, bu i'r Cyngor wario £185m ar ddarparu nwyddau, gwaith a gwasanaethau gan sefydliadau allanol, ac mae cyfrifoldeb felly i sicrhau y defnyddir adnoddau'r Cyngor yn y ffordd orau posib i gwrdd ag anghenion trigolion y sir, gan sicrhau'r gwerth gorau i'r Cyngor a'r economi leol ar yr un pryd.<br><br>Mae'r Strategaeth Caffael sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd yn gosod y cyfeiriad polisi, amcanion a blaenoriaethau i'w gweithredu yn gorfforaethol, rhanbarthol a chenedlaethol hyd at 2017. |
| 2. | Beth all y Pwyllgor Craffu ei ystyried? | I. Pa mor llwyddiannus fu'r Strategaeth Caffael blaenorol (2008-2011) o safbwynt cyflawni ei holl amcanion?<br><br>II. Beth yw uchelgais cyffredinol y Cyngor ar gyfer caffael fel y nodir yn y Strategaeth ddrafft, ac a ydi'r uchelgais yn gyrraeddadwy ac yn realistig?<br><br>III. Sut mae'r Cyngor yn llwyddo i daro cyd-bwysedd rhwng sicrhau gwerth am arian drwy caffael a chadw'r budd yn lleol?<br><br>IV. Pa ymgysylltu ffurfiol/anffurfiol sydd wedi bod gyda buddeiliaid yn lleol er mwyn sicrhau fod y sector preifat a'r trydydd sector yng Ngwynedd wedi eu paratoi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ar gyfer, ac yn gallu manteisio i'r eithaf ar brosesau caffael newydd y Cyngor, er sicrhau cadw'r budd yn lleol? Beth oedd canlyniadau unrhyw ymgysylltu? |
| | | V. | A oes adnoddau digonol gan y Cyngor i wireddu'r Strategaeth Caffael newydd? |
| | | VI. | A yw'r mesuryddion ar gyfer y Strategaeth ddrafft yn addas i bwrpas, ac yn cynnwys effaith ariannol gwariant y Cyngor, ac effaith ar drigolion? |
| | | VII. | Sut mae sicrhau ymrwymiad a dealltwriaeth ar draws y Cyngor i wireddu'r trefniadau caffael newydd ac amcanion y Strategaeth? |
| | | VIII. | Pa mor sicr ydym fel Cyngor ynglŷn â chyfraniad caffael at ganfod arbedion ariannol i'r Cyngor? Beth yw swm yr arbediad y gobeithir ei wireddu yn ystod oes y Strategaeth Caffael yma? |
| | | IX. | A yw rheolaeth categori yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau rheolaeth gadarn o drefniadau caffael y Cyngor, a'r cyfle gorau i sicrhau gwerth am arian/ arbedion ariannol? |
| | | X. | Pa mor weithredol yw e-gaffael ar draws y Cyngor? |
| | | XI. | A yw'r holl fframweithiau / polisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y maes caffael yn cyfarch gofynion ieithyddol Cynllun Iaith y Cyngor (Safonau Iaith arfaethedig) a'r canllaw |

| | | |
|---|---|---|
| | | "Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg)? Pa ddulliau sydd mewn lle i fesur cydymffurfiaeth gyda gofynion Cynllun Iaith y Cyngor? |
| 3. | Beth fydd craffu yn ei gyflawni? | Cwestiynu uniongyrchol ar yr Aelod Cabinet er mwyn ceisio dylanwadu ar bolisi a/neu benderfyniad yr Aelod Cabinet i'r dyfodol. |
| 4. | Ffurf y craffu | Cwestiynu penodol yn y Pwyllgor Craffu ei hun ar y cwestiynau yn 2 uchod. |
| 5. | Aelod Cabinet Atebol | Cynghorydd Mandy Williams-Davies |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 11 Mehefin 2015 |
| **TEITL** | Strategaeth Ffordd Gwynedd |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Peredur Jenkins |
| | |

1. Mae'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi bod yn ymddiddori yn yr arbrofion "dull systems" o weithio a bellach mae'r arbrofion yma wedi esblygu i fod yn sail i ddiwylliant newydd ar gyfer y Cyngor sydd yn ceisio sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

2. "Ffordd Gwynedd" yw'r label sydd wedi ei roddi ar y diwylliant yma a chyn hir, byddaf yn gobeithio cyflwyno strategaeth ffurfiol i'r Cabinet er mwyn ei fabwysiadu'n ffurfiol.

3. Cyn gwneud hynny byddai'n fuddiol cael barn y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar ble ydan ni wedi cyrraedd ac unrhyw sylwadau sydd ganddynt ar sut y gallwn wella'r strategaeth o gofio'r diddordeb y maent wedi ei ddangos yn y fethodoleg "systems".

4. Amgaeaf fersiwn ddiweddaraf y strategaeth ddrafft er mwyn i'r Pwyllgor Craffu gael syniad o beth sydd dan sylw.

5. Nid yw'n orffenedig eto gan nad yw'r rhaglen waith wedi ei fewnosod, ac mae yna bosibilrwydd y bydd angen ychwanegu ato os byddwn yn dod ar draws rhywbeth arall hanfodol sydd angen ei wneud i hyrwyddo'r diwylliant, ond mae'n nodi'r cyd-destun a'r hyn y byddwn yn bwriadu ei wneud i ddod a Ffordd Gwynedd yn fyw yn y Cyngor yma.

6. Unwaith y byddaf wedi derbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar y mater fy mwriad yw mynd a'r strategaeth ger bron y Cabinet i'w fabwysiadu. Mae o eisoes yn rhan o'n Cynllun Strategol wrth gwrs.

7. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn, fy mwriad ar gyfer y cyfarfod yw gofyn i'r Prif Weithredwr sydd yn fy helpu i gomisiynu'r rhaglen yma i roddi cyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu i egluro sut ydan ni wedi cyrraedd y pwynt yma ac i egluro pam fod y strategaeth yn cynnwys yr hyn sydd ynddo.

8. Deallaf wrth ragbaratoi ar gyfer y cyfarfod, fod yr aelodau wedi codi rhai cwestiynau yr hoffent gael yr atebion iddynt sef –

    - Beth ydi Ffordd Gwynedd?

- Beth yw uchelgais cyffredinol y Cyngor ar gyfer Ffordd Gwynedd, ac a ydi'r uchelgais yn realistig ac yn gyrraeddadwy?

- A oes gennym adnoddau digonol mewn lle a'r capasiti i wireddu gweledigaeth strategaeth Ffordd Gwynedd a'i roi ar waith?

- Pa mor sicr ydym ni y bydd Ffordd Gwynedd yn llwyddo?

- Beth yw'r dystiolaeth fod Ffordd Gwynedd wedi llwyddo i wella gwasanaethau i drigolion a sicrhau arbedion ariannol yn y 2 gynllun peilot ym meysydd digartrefedd ac eiddo?

- Sut mae sicrhau ymrwymiad a dealltwriaeth ar draws y Cyngor i wireddu Ffordd Gwynedd?

- Gan mai newid diwylliant y Cyngor yw hanfod Ffordd Gwynedd, pa fesuriadau perfformiad sydd yn bosib eu rhoi mewn lle er mwyn sicrhau'r diwylliant hwnnw?

- Pa ymgysylltu ffurfiol/anffurfiol sydd wedi bod gyda buddeiliaid:
  - rheolwyr
  - staff
  - aelodau etholedig
  - trigolion

  ynglŷn â strategaeth Ffordd Gwynedd?

9. Byddaf yn gofyn i'r Prif Weithredwr geisio cyfarch rhain yn ei gyflwyniad.

# FFORDD GWYNEDD

## Mehefin 2015



### 1. Beth yw Ffordd Gwynedd ?

Ffordd Gwynedd yw'r enw a roddwyd ar y "ffordd" y byddwn ni yng Nghyngor Gwynedd yn sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Nid proses na syniad damcaniaethol mohono ond yn hytrach casgliad o drefniadau gwaith, ymddygiadau a diwylliant sydd, gyda'i gilydd, yn caniatáu i ni fod yn hyderus ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog bob tro.

### 2. Pam mae angen y strategaeth yma ?

Fel corff sydd yn bodoli i wasanaethu pobl Gwynedd, fe ddylai ein diwylliant a'n trefniadau gwaith fod yn sicrhau fod y bobl hynny yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Byddai nifer helaeth o weithwyr y Cyngor yn ystyried ein bod eisoes yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae yna gryn dipyn o dystiolaeth i awgrymu nad yw'n wir bob tro.

Yn aml iawn fodd bynnag, nid bai'r staff yw hynny. Mae trwch staff y Cyngor yn gweithio'n galed i geisio cyflawni pethau sydd o fudd i bobl Gwynedd. Ond mae yna bethau yn digwydd yn eu gwaith dyddiol sy'n eu hatal rhag gwireddu'r dyhead hwnnw – pethau sy'n deillio o flynyddoedd lawer o adeiladu arferion gwaith a threfniadau sydd wedi cael eu sefydlu am amrywiol resymau.

Mae diwylliant y Cyngor hefyd wedi arwain i ni feddwl weithiau ein bod yn gwybod yn well ac i beidio ystyried beth yw gwir anghenion ein trigolion

Os ydym am ofyn i staff roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud go iawn, mae'n rhaid cael yr amodau priodol o fewn y Cyngor i ganiatáu i hynny ddigwydd.

Mae hynny yn golygu creu diwylliant sy'n gyson gyda'r amcan yma ac sy'n ddiflino yn cael gwared â'r rhwystrau hynny sy'n atal ein gweithlu rhag gwneud hynny.

Rhaid tanlinellu nad yw rhoi pobl Gwynedd yn ganolog yr un fath â dweud ein bod am gwrdd â dyheadau pawb. Mae'n rhaid i'r Cyngor weithio o fewn cyfyngiadau ariannol sylweddol ac ni allwn gyfarch disgwyliadau pawb.

O fewn yr adnodd sydd gennym fodd bynnag, fe ddylem sicrhau fod pob ceiniog yn cael ei defnyddio i uchafu'r gwerth sydd yn cael ei greu i bobl Gwynedd a'r pethau hynny sydd yn bwysig iddynt. Man cychwyn hyn oll yw ystyried popeth drwy lygaid pobl Gwynedd yn hytrach na thrwy lygaid y sefydliad a'i staff.

DRAFFT

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, sydd yn debygol o barhau am gyfnod estynedig, bydd Llywodraeth Leol yn derbyn llawer llai o arian a golyga hyn os ydym am fedru parhau i sicrhau fod y rhai mwyaf anghenus yn derbyn sylw gennym, bydd yn rhaid hefyd edrych am ddulliau newydd o gyflawni gofynion pobl Gwynedd.

Rhaid i bobl Gwynedd hefyd wynebu'r ffaith os ydym am barhau i gyflawni'r gwasanaethau hynny sydd o flaenoriaeth uchaf iddynt, yna mae'n rhaid iddynt hwy fod yn fodlon derbyn dulliau gwahanol o gwrdd â'u hanghenion - efallai hyd yn oed drwy ofyn i rai carfannau gwrdd â'u hanghenion eu hunain gyda chymorth gwahanol gan y Cyngor neu gan fudiadau eraill.


Bydd nifer yn gweld y newidiadau yma yn annymunol (tydi newid byth yn boblogaidd) ond mae o'n elfen hanfodol o roddi pobl Gwynedd yn ganolog drwy sicrhau fod y gwerth a geir o bob punt o wariant yn cyflawni'r budd mwyaf posibl.

DRAFFT

## 3. Beth sydd angen bod yn ei le i wireddu'r weledigaeth ?

Mae hyn oll yn dechrau drwy ddeall y model busnes sylfaenol y dylai'r Cyngor fod yn gweithio iddo.

Gellir crynhoi'r model busnes hwnnw fel a ganlyn -



Mae'n dechrau drwy ddiffinio pa anghenion y mae unrhyw dim gwasanaeth yn eu cyfarch i bobl Gwynedd (sef diffinio "pwrpas" y tîm); diffinio be sy'n bwysig i bobl Gwynedd wrth gyfarch yr angen hwnnw; ac yna sefydlu'r mesurau sydd am fesur pa mor dda y maent yn cyflawni'r pwrpas hwnnw.

Fe ddylai timau wedyn fod yn anelu'n barhaus i ddarganfod ffyrdd o wella eu perfformiad ar y mesurau hynny.

Oherwydd y cyfyngiadau ariannol sylweddol yr ydym yn eu hwynebu, bydd angen i dimau gwasanaeth hefyd ystyried a oes yna ffyrdd o osgoi i'r anghenion hynny godi yn y lle cyntaf (efallai drwy fuddsoddi ynghynt ac mewn gwasanaethau ataliol) er mwyn lleihau'r "anghenion" y mae gofyn i ni eu cyflawni a thrwy hynny sicrhau fod yr adnoddau sydd gennym yn gallu gwasanaethu mwy o bobl.

Pan ddaw'n adeg blaenoriaethu anghenion i'w cyfarch, mater i aelodau etholedig y Cyngor fydd hynny.

Nid yw dealltwriaeth o'r model busnes uchod ac ymgeisio ei weithredu ynddo'i hun am fod yn ddigonol fodd bynnag. Mae sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog yn golygu cael diwylliant a threfniadau gwaith o fewn y Cyngor sydd yn atgyfnerthu ein gallu i wireddu'r dyhead hwnnw.







## 4. Sicrhau diwylliant a threfniadau gwaith priodol

Nid yw newid diwylliant am ddigwydd dros nos, ac o reidrwydd, mae cyrraedd pen y daith am gymryd amser. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn dechrau ar y daith honno ac yn asesu o bryd i'w gilydd a ydym ar y llwybr cywir a pha mor bell ydan ni wedi teithio.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau trafod gydag aelodau, rheolwyr a staff i asesu beth oedd y gwendidau oedd yn cael eu gweld o ran ymateb i anghenion ein trigolion.

Yn ogystal â hynny gwnaed asesiad o'r trefniadau llywodraethu presennol (wrth baratoi ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol).

Hefyd, bu i ni arbrofi gyda syniadaeth "Systems Thinking" fel dull o sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar gyflawni anghenion go iawn.

Fe arweiniodd y profiadau yma ynghyd â'r asesiadau a wnaed at y casgliad fod angen i'r pethau canlynol fod yn eu lle os am lwyddo i gael diwylliant priodol ar gyfer gwireddu ein huchelgais. Rhaid cael -

DRAFFT




## 5. Sut ydan ni am gyflawni hyn oll ?

Dengys profiad y gorffennol nad drwy sesiynau hyfforddi a darlithio i staff y byddwn yn sicrhau fod yr elfennau yma yn disgyn i'w lle.

Rhaid cael fframwaith ddatblygu sy'n sicrhau fod yna gyfle i dimau gwasanaeth adlewyrchu ar yr hyn y maent yn ei wneud ac i ofyn y cwestiwn sylfaenol "A ydym yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog ?".

Mae'n rhaid i'r fframwaith yma arfogi timau gyda'r sgiliau angenrheidiol i fedru adlewyrchu ar hynny gan hefyd roddi'r cymorth a chefnogaeth briodol i weithredu ar unrhyw newidiadau angenrheidiol a chynnig her barhaus drwy gydol y broses i sicrhau ei fod yn digwydd.

**Project Rhif 1** fydd yn gwneud hyn. Hwn yw'r gongl faen fydd yn ceisio gwreiddio'r ffordd o feddwl a'r ymddygiadau perthnasol o fewn pob un uned gwasanaeth o fewn y Cyngor.

Mae'n dasg anferthol gan ein bod yn ceisio trawsnewid degau o flynyddoedd o arferion ond dim ond drwy'r dull yma y byddwn yn gallu ceisio sicrhau gwreiddio'r newid ymddygiadau angenrheidiol ac arfogi'r gweithlu.

DRAFT

Ynddo'i hun nid yw am fod yn ddigon fodd bynnag gan fod yn rhaid i elfennau eraill a nodir uchod fod yn tynnu i'r un cyfeiriad os ydym am lwyddo.

Mae yna bosibilrwydd hefyd ein bod wedi methu rhywbeth a bydd yn rhaid bod yn fyw i hynny wrth fynd ar y daith gan newid y strategaeth yn ôl y gofyn.

Un peth sydd yn sicr, bydd yn rhaid bod yn "ddigyfaddawd" am weithrediad y strategaeth yma neu methu fydd ei hanes. Tydi o ddim yn ddigon i ddweud ein bod am ei weithredu - mae'n rhaid i'n hymddygiadau gefnogi hynny.



## 6. Y rhaglen waith

Mae'r canlynol yn nodi pa brojectau y byddwn yn eu cyflawni er mwyn sicrhau ein bod yn creu diwylliant priodol o fewn y cyngor gan nodi pa elfen o'r cylchoedd uchod y byddant yn eu taro.

**Rheolwyr** sydd yn y gwaith yn grymuso staff i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid ac edrych am ddulliau o wyro'r galw am wasanaeth; yn deall anghenion cwsmeriaid a chael gwared a rhwystrau.

**Staff** sydd wedi eu grymuso i weithredu'n hyblyg i gyflawni anghenion cwsmeriaid ac i fynd ar ol cyfleoedd i ddileu galw am wasanaethau.

**Project 1 - Project Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith**

Bydd y Project "Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith" cynnwys dwy ffrwd gwaith.

Y cyntaf fydd trwytho holl reolwyr y Cyngor yr egwyddorion sylfaenol Ffordd Gwynedd i sicrhau fod dealltwriaeth ganddynt o'r cysyniadau perthnasol a beth y gallent hwy eu gwneud i ledaenu'r ffordd o feddwl yn eu hunedau nhw. Fodd bynnag nid yw codi ymwybyddiaeth ynddo'i hun am lwyddo.

Bydd yr ail ffrwd yn golygu gweithredu ar raglen fydd yn arfogi timau gwasanaeth i fedru adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol; i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella; gan sicrhau fod pob tîm gwasanaeth yn cael y cyfle i weithredu'r rhaglen.

Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys cyfres o sesiynau dysgu gyda'i gilydd yn y gwaith fydd yn arfogi rheolwyr a staff i :-

- Edrych ar y gwasanaeth a roddir drwy lygaid y dinesydd bob tro.
- Gytuno gyda'i gilydd sut orau i fynd o gwmpas pethau er mwyn diwallu'r hyn sy'n bwysig i'n pobl.
- Herio dulliau o weithio sydd ddim yn eu helpu i gyflawni i'n pobl.
- Fod yn fodlon arbrofi (gyda mesurau llwyddiant yn glir) er mwyn gwella gwasanaeth.
- Fanteisio ar y cyfleoedd a roddir i awgrymu sut y gellir gwella gwasanaeth.
- Sicrhau deialog parhaus rhwng rheolwyr a staff i weld sut y gall rheolwyr helpu staff i wneud eu gwaith yn well a manteisio ar wybodaeth staff i wella gwasanaeth.
- Sicrhau fod perchnogaeth perfformiad yr Uned yn nwylo pawb (nid dim ond y rheolwr).
- Sicrhau fod gwybodaeth perfformiad yn cael ei defnyddio i wella gwasanaeth.

DRAFT

- Greu diwylliant o welliant parhaus er budd pobl Gwynedd.
- Asesu'r rolau sydd eu hangen i gyflawni i'n pobl yn effeithiol
- Edrych am gyfleoedd i sicrhau fod y galw am wasanaeth yn cael ei wyro.

**Project 2 - Rhaglen Ddatblygu Arweinwyr**

**Arweinyddiaeth** sy'n amlygu bod Ffordd Gwynedd yn bwysig ac yn cynnal y weledigaeth.

Bydd y Project Rhaglen Datblygu Arweinwyr yn sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion "Ffordd Gwynedd"; eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion "Ffordd Gwynedd" drwy holl haenau'r sefydliad; a'u bod wedi eu harfogi i wneud hynny.

**Project 3 - Strategaeth Ymgysylltu**

**Trefniadau Ymgysylltu** addas er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sydd o bwys i bobl Gwynedd ac ymhle i flaenoriaethu ein hadnoddau.

Bydd y Project Strategaeth Ymgysylltu yn sicrhau fod yna gefnogaeth briodol ar gael i helpu i dimau gwasanaeth ac aelodau wella trefniadau ymgysylltu'r Cyngor gan sicrhau fod blaenoriaeth yn cael ei roi i'r meysydd blaenoriaeth hynny o fewn y Cynllun Strategol.

**Project 4 - Mewnosod Cyfundrefn Berfformiad**

**Cyfundrefn Perfformiad** sy'n mesur os ydan ni'n cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd ac yn rhoi gwerth am arian iddynt.

Bydd y project Mewnosod Cyfundrefn Berfformiad yn datblygu a mewnosod cyfundrefn berfformiad newydd fydd yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan ddefnyddio'r mesurau hynny i wella perfformiad a bod y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.

**Project 5 - Adolygiad o oriau agor**

**Trefniadau darparu gwasanaeth** sy'n creu gwerth i'r cwsmer.

Bydd Project Adolygiad o oriau agor yn ymgysylltu gyda phobl Gwynedd i weld a oes yna alw am oriau agor gwahanol ac ystyried a ellir gwireddu hynny o fewn y cyfyngiadau ariannol sydd arnom.

**Project 6 - Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth**

Bydd y project Ymestyn Defnydd o Hunan Wasanaeth yn sefydlu ym mha feysydd y dylid anelu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth i ymestyn y defnydd o hunan wasanaeth er mwyn ei wneud yn haws i gael mynediad at wasanaethau gan ystyried y budd a'r gost o wneud hynny a gwireddu'r cynllun busnes a sefydlir.

**Project 7 - Trefniadau Cefnogi Newid**

Bydd y project Trefniadau Cefnogi Newidyn yn asesu ymhle mae angen cryfhau ein trefniadau cefnogi newid gan sefydlu rhaglen ar gyfer cryfhau'r maes hwnnw a'i wireddu er mwyn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol.

**Project 8 - Strategaeth Technoleg Gwybodaeth**

**Polisiau** sy'n hyrwyddo cefnogi cyflawni anghenion ein bobl yn hytrach na chreu rhwystrau.

Bydd y project Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn llunio strategaeth a rhaglen waith ar gyfer gwireddu'r strategaeth honno fydd yn uchafu defnydd o dechnoleg gwybodaeth i gynorthwyo gweithlu'r Cyngor i gyflawni ar gyfer pobl Gwynedd yng nghyd-destun yr hinsawdd ariannol sydd o'n blaenau.

**Project 9** - Bydd y Project ERDMS yn gosod cyfundrefn yn ei le fydd yn lleihau ein dibyniaeth ar bapur ac yn arbed amser a chostau i ni.

DRAFFT



**Integreiddio gwasanaethau cyhoeddus** - Bychan fu effaith ymdrechion i gydweithio hyd yn hyn. Er mwyn ymateb i hyn byddwn yn sefydlu'r project canlynol -

**Project 10 - Ail ddifinio rôl a maes llafur Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd**

Bydd y project Ail ddiffinio rôl a maes llafur Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd yn sicrhau ein bod yn cynnal adolygiad o rôl a maes llafur y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan sicrhau fod ei weithgareddau yn ychwanegu gwerth i bobl Gwynedd ar gyfer y dyfodol.

**Trefniadau Llywodraethu** sy'n seilio penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn o'r effaith ar bobl Gwynedd.

Mae'r Datganiad Llywodraethu a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn yr Haf 2014 yn adnabod nifer o risgiau llywodraethu sydd angen sylw gyda'r canlynol yn cael eu hadnabod fel risgiau uchel iawn sydd angen sylw -

**Gwerthoedd y Cyngor** - Does dim llawer o dystiolaeth fod gwerthoedd y Cyngor wedi treiddio fel y byddem wedi dymuno ymysg staff ac aelodau'r Cyngor. Mae trafodaethau gyda staff wedi amlygu fod yna ffactorau eraill yn goruchafu gwerthoedd. **Bydd Project 1 uchod yn gyfrwng i ymateb i'r risg yma.**

**Y gyfundrefn "Cyflawni"** - Mae diffyg perchnogaeth o'r wybodaeth perfformiad a'i ddefnydd i wella. Mae angen bod yn gliriach ynglŷn â beth sydd yn wybodaeth rheoli a beth sydd yn fesur perfformiad. **Bydd project 4 uchod yn gyfrwng i ymateb i'r risg yma.**

**Ymgysylltu** - Nid yw trefniadau ymgysylltu'r Cyngor cystal ag y dylent fod ar gyfer yr hinsawdd newydd sydd o'n blaenau. **Bydd project 3 uchod yn ymateb i'r risg yma.**

**Project 11 - Llywodraethu Gwybodaeth**

Mae yna elfen o dystiolaeth yn sgil methiannau diweddar fod angen gwella ein trefniadau rheoli gwybodaeth. **Bydd prosiect rhif 11 yn gyfrwng i wneud hynny.**

**Cyfundrefn Cyflogaeth -** Nid oes yna unrhyw brosiectau penodol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd ar gyfer y maes yma ond mae yna oblygiadau yn deillio allan o Broject 1 fydd yn golygu y bydd yna ffrydiau gwaith o fewn y project hwnnw i addasu ein trefniadau recriwtio, gwerthuso ac anwytho yn gyson gyda'r hyn fydd yn cael ei ledaenu fel rhan o'r project hwnnw.

**Cyfundrefnau cyflogaeth** sy'n arfogi staff ac yn atgyfnerthu'r ymddygiadau hynny sy'n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog;

DRAFFT



## 7 Adnoddau

O ran adnoddau, mae'r Cyngor eisoes wedi darparu adnodd i fedru cyflawni Project 1 ac 'rydym wedi atgyfnerthu hynny drwy greu swydd Arweinydd Rhaglen Arbennig am gyfnod o dair blynedd er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol.

Rhagwelir felly y gellir ei gyflawni i lefel benodol heb ofyn am gyllid pellach i'r hyn sydd eisoes ar gael ond ni ellir bod yn bendant na fydd anghenion eraill yn codi yn y dyfodol.

Bydd angen i'r Cyngor ystyried unrhyw angen pellach allasai godi yn y dyfodol ar sail ei haeddiant a'r sefyllfa ariannol ar y pryd.

Mae yna gwestiwn a yw'r adnodd presennol a ddarparwyd yn adlewyrchu'r uchelgais sydd gan y Cyngor.

Argymhellir fod yr adnodd presennol yn ddigon i wreiddio'r egwyddorion mewn 21 o unedau gwasanaeth erbyn diwedd 2018/19. Gyda buddsoddiad pellach unwaith ac am byth o £150,000 gellid cynyddu hyn i 31.

## 8 Sut fyddwn ni'ngwybod os ydym wedi llwyddo ?

Yn y pen draw, llwyddiant Ffordd Gwynedd fydd sefyllfa lle bydd profiadau unigolion wrth iddynt ddod i gyffyrddiad â'r Cyngor yn rai positif ac yn cwrdd â'u hanghenion. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid i ni gael gwasanaethau sydd yn gallu dangos eu bod yn ymateb i'r hyn sy'n bwysig, drwy ddangos eu bod yn gwybod beth sydd yn bwysig i bobl Gwynedd; bod ganddynt fesurau priodol i ddangos pa mor dda y maent yn ymateb i'r pethau hynny ac yn medru dangos fod ganddynt drefniadau mewn lle i adnabod rhwystrau ac i ymateb i gael gwared a'r rhwystrau hynny.

Y nod yw cael pob Uned Gwasanaeth o fewn y Cyngor yn diffinio'n glir pa anghenion y maent yn eu cyflawni a'r mesurau sy'n profi pa mor dda y maent yn cyflawni'r anghenion hynny (yn unol â'r model busnes a nodir yn rhan 2 uchod). Gwir lwyddiant y strategaeth yma wedyn fydd cael sicrwydd fod y mesurau hynny yn eu lle ac ein bod yn gweld y mesurau hynny yn gwella.

Er mwyn rhoddi elfen o sicrwydd fod unedau gwasanaeth o fewn y cyngor yn gweithredu i'r egwyddorion yma ac yn dilyn trefniadau gwaith ac ymddygiadau fydd yn caniatáu i hynny wella i'r dyfodol, bwriedir sefydlu marc siartr Ffordd Gwynedd.

Byddwn felly yn mesur y canlynol i fesur llwyddiant

- Canran o unedau busnes o fewn y Cyngor sydd wedi derbyn marc siartr Ffordd Gwynedd.
- Canran o fesurau a sefydlwyd wrth ddilyn trywydd Project 1 sydd yn dangos gwelliant;

Ymhen cyfnod o ddwy flynedd byddwn yn cynnal adolygiad ffurfiol o gynnydd yn erbyn yr amcan.

DRAFFT

# Ymchwiliad Craffu – Tai Gwyliau a Threthi

**Fersiwn 1.00 o'r Sgôp**

**Cefndir**

Mae diffiniadau pendant o fewn y gyfraith ar gyfer "Ail Gartrefi", sy'n destun Treth Cyngor, ac "Uned Hunan Ddarpar", sef cartrefi gwyliau sy'n dod o fewn y gyfundrefn Trethi Annomestig.

Cyflwynodd yr Arweinydd Cabinet Adnoddau nifer o bapurau i'r cyfarfod paratoi ar 20/05/2015 yn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ynghylch trethu "ail gartrefi" ac "unedau hunan ddarpar", a'r sefyllfa yng Ngwynedd. Gwelwyd yn glir fod her flynyddol o warchod y sylfaen trethiannol a'r gyllideb yn wyneb eiddo'n symud o'r gyfundrefn Treth cyngor i Drethi Annomestig.

Mae'r Aelod Cabinet Adnoddau wedi gofyn i'r pwyllgor sefydlu gweithgor i graffu'r mater ar ei ran, drwy edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn siroedd eraill, a llunio argymhellion i'w sylw.

**Pwrpas yr Ymchwiliad**

Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu fydd edrych ar sefyllfa cynghorau eraill yng nghyd-destun "ail gartrefi" ac "unedau hunan ddarpar" i geisio gweld a ydynt yn wynebu yr un heriau a Gwynedd ac adnabod a oes ganddynt gynlluniau i oresgyn yr anawsterau hyn.

- Newidiodd Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010 y diffiniad o eiddo sydd ddim yn eiddo domestig at bwrpasau trethiant. Pa effaith gafodd y newidiadau hyn ar gyflymder y trosglwyddiad?
- Pa ddisgownt neu bremiwm mae gwahanol gynghorau yng Nghymru a Lloegr yn ei ganiatáu / godi ar ail gartrefi? Os yna unrhyw gydberthyniad (correlation) rhwng maint disgownt / premiwm a nifer yr eiddo sy'n trosglwyddo?
- Pa mor aml mae Swyddfa'r Prisiwr yn adolygu os yw eiddo sydd wedi trosglwyddo i'r drefn Trethi Busnes yn parhau i gydymffurfio â'r diffiniad o eiddo sydd ddim yn eiddo domestig?
- Oes gan y Cyngor unrhyw rymoedd "plismona"? Os oes, a oes yna achos busnes dros sefydlu swyddogaeth "cydymffurfiaeth" o fewn y Cyngor a fyddai'n talu am ei hun wrth ddarganfod eiddo sydd ddim yn gymwys i Dreth Cyngor, ond a ddylai fod? Petai'r Cyngor yn darganfod Eiddo o'r fath, a fyddai Swyddfa'r Prisiwr yn barod i weithredu?
- Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth sy'n dderbyniol i Swyddfa'r Prisiwr er mwyn caniatáu trosglwyddiad?
- Mae gennym ffigyrau i ddangos faint o eiddo y mae Swyddfa'r Prisiwr wedi caniatáu eu trosglwyddo bob blwyddyn. Oes ffigyrau ar gael am y nifer y mae Swyddfa'r Prisiwr wedi eu gwrthod bob blwyddyn? Byddai'r ffigyrau hyn yn gymorth i ddangos os mai mwy o berchnogion eiddo

Drafft

sy'n gofyn am drosglwyddiad erbyn hyn, neu os mai Swyddfa'r Prisiwr sy'n fwy parod i'w caniatáu (e.e. oherwydd fod torri adnoddau yn golygu nad oes modd iddynt ymchwilio mor drwyadl).

- Oes gan y Cyngor unrhyw hawl apêl pan fydd Eiddo yn trosglwyddo?
- Oes yna risg y bydd codi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn wrthgynhyrchiol os bydd yn annog mwy o drosglwyddo?

**Cyfnod yr Ymchwiliad**

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr ymchwiliad | Mehefin 2015 |
| Diwedd yr ymchwiliad | Hydref 2015 |
| Adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 3ydd Rhagfyr 2015 |
| Adroddiad oddi wrth craffu at y Weithrediaeth | Ionawr 2016 |

**Rhaglen**

Amlinelliad o'r prif gamau a chyfarfodydd.
**Bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd.**

| | |
|---|---|
| 1. | Cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau a'r Pennaeth Cyllid |
| 2. | Sesiwn Gynllunio<br>• Y Grŵp Ymchwiliad i ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd hyd yma<br>• Cytuno ar gwestiynau ac amserlen a sut i ymgymryd â'r gwaith ymchwil pellach ee<br>• Trafod gyda siroedd eraill - trwy alwadau ffon neu gynhadledd fideo?<br>• Cysylltu gyda'r Llywodraeth neu Swyddfa'r Prisiwr<br>• gwaith ymchwil pen desg<br>• gwaith maes lleol |
| 3. | Aelodau i wneud gwaith ymchwil ar gyfer yr ymchwiliad rhwng cyfarfodydd ac adrodd nol i'r Arweinydd/ Cadeirydd. |
| 4. | Dadansoddiad<br>Ystyried a chrynhoi'r wybodaeth a gasglwyd<br>Cytuno'r prif argymhellion ar gyfer yr adroddiad |
| 5. | Llunio'r adroddiad |
| 6. | Pwyllgor Craffu Corfforaethol i ystyried yr adroddiad drafft a chyflwyno'r argymhellion i'r Aelod Cabinet |

Draft

**Ymchwiliad Craffu Ymgysylltu**

**Fersiwn 2.00 o'r Sgôp**

**Cefndir**

Amcan Strategaeth Ymgysylltu'r Cyngor yw:

*"Sicrhau fod yna drefn strwythuredig o fewn y Cyngor i sicrhau cyfleoedd i bobl Gwynedd a'r Cyngor ddod i ddeall ei gilydd yn well."*

Caiff llwyddiant y strategaeth ei fesur, yn y lle cyntaf, trwy holi am fodlonrwydd trigolion (ar raddfa 1- 'anfodlon iawn', i 10 - 'bodlon iawn') ar yr isod:

1. Yn gyffredinol, sut mae trigolion Gwynedd yn teimlo am eu hardal fel lle i fyw?
2. I ba raddau mae trigolion Gwynedd yn ystyried fod Cyngor Gwynedd yn cwrdd â'u anghenion?
3. I ba raddau mae trigolion Gwynedd yn teimlo eu bod yn cael cyfle priodol i ddylanwadu ar y gwasanaethau maent yn eu defnyddio?

**Pwrpas yr Ymchwiliad**

Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu fydd edrych ar drefniadau ymgysylltu'r Cyngor ar waith. Bwriedir sylfaenu'r ymchwiliad ar enghraifft o ymgysylltu y bwriedir ei weithredu yn y dyfodol agos, sef Her Gwynedd 2 – y drefn toriadau . Mae tri categori i'w hystyried o ran yr ymgysylltu yn y broses toriadau, sef

i. Aelodau etholedig
ii. Trigolion Gwynedd
iii. Staff Cyngor Gwynedd

Bydd yn angenrheidiol rhoi sylw i'r materion canlynol ar gyfer i – iii uchod:

a) Beth yw pwrpas yr ymgysylltu?
b) A yw'r cynllun ymgysylltu yn addas i bwrpas?
c) A lwyddwyd i adnabod yr holl fudd-ddeiliad ar gyfer yr ymgysylltu?
d) Pa lefelau a dulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd?
e) A ddefnyddiwyd adnoddau mewnol neu gontractwyr allanol ar gyfer yr ymgysylltu? Beth yw manteision/anfanteision hynny o safbwynt yr ymgysylltu?
f) A roddwyd ystyriaeth briodol i rwystrau a adnabuwyd i ymgysylltu a sut i'w datrys?
g) A roddwyd ystyriaeth briodol i gydraddoldeb fel rhan o'r ymgysylltu?
h) Pa adborth a gafwyd ar effeithiolrwydd yr ymgysylltu?
i) Pa lwyddiannau a gwersi a ddysgwyd o'r ymgysylltu?
j) Pa arfer dda a adnabuwyd ac a oes cyfleoedd i wella?

Drafft

k) Pa effaith a dylanwad, os o gwbl, gafodd yr ymgysylltu ar gynlluniau'r Cyngor yng nghyd-destun y toriadau arfaethedig?

**Cyfnod yr Ymchwiliad**

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr ymchwiliad | Mehefin 2015 |
| Diwedd yr ymchwiliad | Mawrth 2016 |
| Adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 14 Ebrill 2016 neu'r cyfarfod dilynol (dyddiad heb ei bennu) |
| Adroddiad oddi wrth craffu at y Weithrediaeth | o fewn y mis o ddyddiad y Pwyllgor |

**Rhaglen**

Amlinelliad o'r prif gamau a chyfarfodydd.
**Bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd**.

| | |
|---|---|
| 1. | Cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet ar y Strategaeth Ymgysylltu |
| 2. | Cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Comisiynu Corfforaethol a Chefnogi newid, Cydlynydd Panel Trigolion a'r Rheolwr Cyfathrebu ar y Cynllun Ymgysylltu ar gyfer Her Gwynedd 2 - y drefn Toriadau. |
| 3. | Sesiwn Gynllunio<br>• Y Grŵp Ymchwiliad i ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd hyd yma<br>• Cytuno ar gwestiynau<br>• Cytuno ar amserlen ymweliadau<br>• Creu rhaglen waith. |
| 4. | Sesiynau cwestiynu a thrafod gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. |
| 5. | Cysgodi cyfarfodydd ymgysylltu:<br>Gweithdai Craffu Aelodau (Mehefin 2015)<br>Gweithdai Cyhoeddus (Medi / Hydref 2015)<br>Gweithdai gyda staff (dyddiadau i'w pennu)<br>Gweithdai Craffu aelodau – blaenoriaethu (dyddiadau i'w pennu) |
| 6. | Ystyried cynnwys Llawlyfr Ymgysylltu'r Cyngor a chanllawiau *Cyfranogiad Cymru* ac eraill ar gyfer ymgysylltu |
| 7. | Sesiwn Gynllunio<br>Ystyried y wybodaeth a gafwyd hyd yma, a chynllunio gweddill y rhaglen waith. |
| 8. | Trefnu a chynnal Grwpiau Ffocws gyda budd-ddeiliaid allweddol, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, trigolion fu'n rhan o'r ymgysylltu ayyb. |

Draft

| | |
|---|---|
| 9. | Sesiwn Gynllunio<br>Ystyried y wybodaeth a gafwyd hyd yma, a chynllunio gweddill y rhaglen waith. |
| 10. | Ystyried unrhyw adborth o'r ymgysylltu, unrhyw werthusiad a luniwyd, dylanwad a bodlonrwydd trigolion gyda'r cyfleon a fu iddynt ymgynghori yn y Gyfundrefn toriadau. . |
| 11. | Sesiwn cwestiynu a thrafod y prif ganfyddiadau gyda'r Aelod Cabinet |
| 12. | Dadansoddiad<br>• Ystyried a chrynhoi'r wybodaeth a phrofiadau<br>• Cytuno'r prif argymhellion ar gyfer yr adroddiad |
| 13. | Llunio'r adroddiad |
| 14. | Pwyllgor Craffu Corfforaethol i ystyried yr adroddiad drafft a chyflwyno'r argymhellion i'r Aelod Cabinet (Ymgysylltu) |

Drafft